Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME COMMISSIONER

# TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl 151

**Amseru:**

**Teitl: Cyfraniad ariannol tuag at ddigwyddiad Race Council Cymru ym Mhrifysgol Aberystwyth ar y 10fed o Hydref**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid**

**Crynodeb Gweithredol:**

Mae cais am gyllid ar gyfer cynnal digwyddiad gan Race Council Cymru i ddathlu mis Hanes Pobl Dduon ar gost £3500 wedi'i dderbyn gan y Comisiynydd.

Nod y digwyddiad yw hyrwyddo amrywiaeth ac ymgysylltiad rhwng cymunedau yng Ngheredigion, a bydd yr arian yn mynd tuag at gynnal y digwyddiad yng Nghanolfan y Celfyddydau ar gampws Prifysgol Aberystwyth. Bydd y digwyddiad yn cynnwys adloniant cerddorol byw yn ogystal â siaradwyr ar bynciau sy'n gysylltiedig â mis Hanes Pobl Dduon. Mae'r rhodd yn cefnogi blaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throseddu'r Comisiynydd trwy sicrhau bod ei swyddfa a Heddlu Dyfed-Powys yn cysylltu â chymunedau ledled yr Heddlu.

Gwnaed penderfyniad gan y PCC i gyfrannu tuag at y digwyddiad £3500 o gronfa 720 y Swyddfa, Cod Cyrff Eraill.

**Argymhelliad:**
Gymeradwyo cyfraniad £3500 o gyllideb y Swyddfa i gefnogi digwyddiad mis hanes pobl dduon Cyngor Hil Cymru yng Nghanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth, Prifysgol Aberystwyth.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad:** 10/9/2019